**LGH-11-02 (min)**

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 26 Mehefin 2002

**Amser:** 2.00pm hyd 5.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gŵyr |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Kate Cassidy | Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| Gwilym Evans | Cyllid Llywodraeth Leol |
| Rob Hay | Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol |
| Yr Athro George Boyne | Prifysgol Caerdydd |
| Yr Athro Dave Adamson | Ymgynghorydd Arbenigol |

**Ysgrifenyddiaeth:**

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |

**Sylwadau Agoriadol**

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod yr ymweliad arfaethedig â Brackla a'r Betws y cytunwyd yn amodol i'w gynnal ar 4 Gorffennaf wedi cael ei ohirio eto am ei fod yn gwrthdaro â chynhadledd ddeuddydd Ffederasiwn Cenedlaethol y Cymdeithasau Tai. Cytunodd y Pwyllgor y dylid gwneud trefniadau i gynnal yr ymweliad yn nhymor yr hydref. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r aelodau ynglŷn â dyddiadau addas.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb na dirprwyon.

**Eitem 2: Datgan Buddiannau**

2.1 Gwnaed y datganiadau isod:

Peter Black: Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

William Graham: Aelod o Gyngor Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd.

Pauline Jarman: Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Dai Lloyd: Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

Janet Ryder: Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog LGH-11-02 (p.1) Atodiad 1, 2**

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad. Wrth wneud hynny, cyhoeddodd y byddai swyddfa yn cael ei sefydlu ym Mae Colwyn fel rhan o'r Gyfarwyddiaeth Dai. Ychwanegodd y byddai'r penderfyniad hwn yn ategu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i fod â chynrychiolaeth y tu allan i Gaerdydd.

3.2 Yn ystod y drafodaeth, cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Croesawai'r aelodau adroddiad y Gweinidog a'i chyhoeddiad gan ddweud bod hyn yn arwydd clir fod angen i'r Cynulliad ddarparu ystod lawn o wasanaethau ledled Cymru.
- Roeddent yn falch o weld bod adolygiad ffiniau Llangollen wedi dod i ben a'i fod wedi cadarnhau barn y bobl leol. Roedd yn bryd symud ymlaen yn gadarnhaol bellach.
- Gwerthfawrogid bod y Mesur Llywodraeth Leol drafft yn canolbwyntio'n bennaf ar Loegr a bod y Gweinidog mewn cysylltiad â'i chymheiriaid yn San Steffan i sicrhau bod y Mesur yn gallu adlewyrchu buddiannau'r Cynulliad dros lywodraeth leol yng Nghymru. Fodd bynnag, mynegwyd pryder pa un a fyddai San Steffan yn cydnabod mewnbwn o Gymru.
- Holodd yr aelodau a oedd y Gweinidog wedi dod i benderfyniad ynglŷn â'r oed ymddeol i gynghorwyr a hefyd pa un a oedd yn ystyried cyflwyno cynllun pensiwn.
- Croesawai'r aelodau y cyfaddawd a awgrymwyd ar fater deisebau o blaid meiri etholedig gan ychwanegu y byddai hyn yn rhoi sefydlogrwydd i awdurdodau lleol.
- Holodd yr aelodau a oedd yna unrhyw resymau cyffredin pam nad oedd y tair ardal y tynnwyd sylw atynt wedi llunio partneriaeth o dan y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Holasant a oedd yna unrhyw achosion lle mai rhyw gorff arall yn hytrach na'r awdurdod lleol oedd yr awdurdod blaen o ran cytundebau lefel gwasanaeth a thynnu cyllid i lawr. Roedd yr aelodau yn pryderu ynglŷn â'r diffyg gweithwyr medrus yn y maes hwn a holasant am sicrwydd na fyddai pobl fedrus yn cael eu hudo o'r cynlluniau adfywio cymunedol.
- Cydnabyddai'r aelodau y byddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad i'r cyfarfod llawn ar 16 Gorffennaf mewn ymateb i'r adroddiad ar y comisiwn dros drefniadau etholiadol llywodraeth leol.
- Croesawai'r aelodau yr adolygiad a gynhaliwyd gan y Gweinidog i filiau'r dreth gyngor ac edrychent ymlaen at dderbyn ei chynigion i'w symleiddio.

- Roedd yr aelodau yn falch o nodi bod y Gweinidog wedi ymgymryd â'r portffolios camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a gofynasant a ddylid cyflwyno sylwadau o blaid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gyfiawnder yr ifanc a thrais yn y cartref iddi hi.

3.3 Rhoddodd y Gweinidog yr ymateb canlynol a chynigiodd gymryd y camau a ganlyn:

- Dywedodd fod tîm o swyddogion y Cynulliad wedi cael ei sefydlu i fonitro hynt y mesur llywodraeth leol drafft a chytunodd i roi gwybod i'r Pwyllgor am y datblygiadau mewn perthynas â'r mesur.
- Dywedodd ei bod wedi pwyso a mesur ymhellach ynglŷn â'r oed ymddeol i gynghorwyr a theimlai y byddai 65 yn fwy priodol. Fodd bynnag, roedd yn ymwybodol mai 70 yw'r oed ymddeol i ynadon a byddai'n ystyried ymhellach ac efallai yn ysgrifennu at CLlLC i ofyn iddynt geisio barn yr awdurdodau lleol.
- Dywedodd nad oedd yna unrhyw resymau cyffredin pam nad oedd tair ardal wedi llunio partneriaethau ac y byddai'n cwrdd â'r ardaloedd hynny i drafod y rhaglen. Ychwanegodd fod y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn gymhleth iawn a chytunodd i baratoi nodyn yn amlinellu sut mae partneriaethau yn gweithio ac i gynnwys esboniad o drefniadau'r Gronfa Ymddiriedolaeth. Cytunodd y Gweinidog i baratoi papur Pwyllgor gyda chynigion i symleiddio biliau'r dreth gyngor yn yr hydref.
- Cytunodd i gyflwyno papur ar y polisi cyffuriau yn yr hydref.

3.4 Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn ddiweddar yn gofyn iddo ystyried trosglwyddo'r cyfrifoldeb am drais yn y cartref a chyfiawnder yr ifanc i'r Gweinidog. Cytunodd i ddarparu copi i'r Pwyllgor o unrhyw ateb a dderbyniai. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y dylent roi gwybod i'r Clerc os oeddent am archwilio unrhyw Offerynnau Statudol sydd wedi'u rhestru a byddai yntau yn trefnu i'r eitem gael ei rhoi ar yr agenda.

**Eitem 4: Y Gyllideb – Ystyried papur materion y Gweinidog LGH-11-02 (p.2)**

4.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gyflwyno ei phapur materion yn ymdrin â chylch cyllideb 2002 mewn perthynas â'r prif grwpiau gwariant Llywodraeth Leol a Thai yng nghyllideb y Cynulliad. Dilyniant oedd y papur o bapur comisiynu dyddiedig 21 Mai a amlinellai fwriadau'r Gweinidog wrth iddi gadarnhau proses gynllunio a chyllidebu'r Cynulliad o 2003-04 ymlaen. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor ei bod yn ofynnol iddo roi ei farn ar y papur i'r Gweinidog ar ffurf ysgrifenedig erbyn 16 Gorffennaf o dan reol sefydlog 19.1.

4.2 Cyflwynodd y Gweinidog ei phapur gan ddweud mai asesiad rhagarweiniol oedd o'r blaenoriaethau a'r pwysau dros y cyfnod yr ymdrinnir ag ef yng Nghylch Cynllunio'r Gyllideb, 2002. Mae Cylch Cynllunio'r Gyllideb yn effeithio ar flwyddyn ariannol 2003-04 a'r ddwy flynedd ddilynol. Dywedodd ei bod am i awdurdodau lleol adeiladu'n llwyddiannus ar y llwyfan a hybu eu rôl fel arweinwyr cymunedol. Dywedodd y byddai pwysau cyflogau a chodiadau yn y cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn effeithio ar gyllidebau awdurdodau lleol. Pwysleisiodd mai ei blaenoriaeth oedd helpu pobl leol mewn ardaloedd difreintiedig a mynd i'r afael â gostwng lefel troseddu. Gwahoddodd sylwadau gan y Pwyllgor.

4.3 Yn gyffredinol roedd y Pwyllgor yn cefnogi blaenoriaethau'r Gweinidog. Gwnaethant y pwyntiau canlynol:
.
- Nododd yr aelodau fod yna nifer o grantiau penodol yn dal i fodoli ac, er eu bod yn cydnabod bod rhai grantiau o'r fath yn angenrheidiol, ailadroddwyd yr egwyddor o beidio â neilltuo cyllid.
- Nododd yr aelodau mai'r cynnig oedd cynyddu gwariant awdurdodau lleol 3.3% ac y byddai'n rhaid ymdopi â chodiadau cyflog, pensiynau a chyfraniadau yswiriant gwladol uwch o fewn y ffigur hwn.
- Teimlid y gallai cynnal cartrefi preswyl mewn modd sy'n cyflawni gofynion y Ddeddf Safonau Gofal achosi problem ariannol ddifrifol i awdurdodau lleol. Gallai grwpiau sy'n agored i niwed mewn cymdeithas ddioddef oni châi arian newydd ei ddarparu i ariannu hyn a'r prisiau uwch a fyddai'n cael eu codi o ganlyniad gan ddarparwyr preifat.
- Nododd yr aelodau fod Canghellor y Trysorlys yn cynnal trafodaethau ynglŷn â'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ac y byddai'r Gweinidog yn rhoi datganiad mewn Cyfarfod Llawn yn yr hydref. Gofynasant a fyddai unrhyw arian ychwanegol a gâi ei gyhoeddi yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn cael ei ryddhau yn y flwyddyn ariannol hon.
- Dywedwyd nad oedd y Grant Tai Cymdeithasol wedi cynyddu ac awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor ystyried cynnal adolygiad o'r Cynllun Prynu Cartref.
- Yn sgîl ailddosbarthu cyfrifoldebau'r Gweinidogion, gofynnodd yr Aelodau am i arian gael ei drosglwyddo o'r gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gydnabod y cyfrifoldeb ychwanegol.
- Teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig fod cyllid digonol yn cael ei sianelu tuag at ostwng lefel digartrefedd ac ar gyfer y rhaglen cynnal pobl.
- Pe byddai adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu ar gyfer tai o ganlyniad i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant, awgrymodd yr aelodau y gellid cyfeirio peth ohono tuag at adnewyddu tai.

4.4 Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog:

- Ei bod yn nodi'r hyn a drafodwyd mewn perthynas â chartrefi gofal a gofynnodd i'r Aelodau godi achosion penodol gyda hi y tu allan i'r cyfarfod.
- Bod Gweinidogion eraill yn gweinyddu cynlluniau grantiau arbennig ond fod cynnydd wedi'i wneud tuag at ostwng y nifer a gyflwynir.
- Cytunodd i roi sylw i'r farn a fynegwyd ynglŷn â'r Cynllun Prynu Cartref a byddai'n adrodd ar hynt y cynllun yn yr hydref.
- Cydnabu fod camddefnyddio sylweddau ac alcohol yn agenda anodd iawn i'r Pwyllgor a'r Cynulliad ymaflyd ynddi. Roedd angen adnoddau. Ychwanegodd fod gan y Cynulliad nifer o faterion trawsbynciol a bod hwn yn un ohonynt. Byddai unrhyw gyllid a neilltuir i atal, plismona a thrin camddefnydd o sylweddau ac alcohol yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf.
- Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r aelodau fod yna ddigon o gyllid i sicrhau bod y fenter Cynnal Pobl yn cael ei rhoi ar waith fel a ddylai.
- Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at Pauline Jarman am y diffiniad o ”yn agored i niwed” yng nghyd-destun y Ddeddf Llywodraeth Leol.

4.5 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog o dan reol sefydlog 19.1 gyda barn y Pwyllgor ar y gyllideb.

**Eitem 5: Cyflwyniad yn dangos cymhariaeth o berfformiad Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr.**

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr Athro George Boyne o Brifysgol Caerdydd. Roedd yr Athro Boyne wedi cyhoeddi canfyddiadau ei ymchwil i gymharu perfformiad gerbron y Bartneriaeth yn ei chyfarfod yn Llanelli fis Ionawr. Yn y cyfarfod hwnnw, awgrymwyd y dylid gwahodd yr Athro Boyne i siarad â'r Pwyllgor am ei ganfyddiadau. Gwahoddodd y Cadeirydd ef i roi ei gyflwyniad.

5.2 Dywedodd yr Athro Boyne iddo wneud y darn hwn o waith ymchwil annibynnol a gyllidwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Gwnaed yr ymchwil oherwydd fod gan lywodraeth leol yng Nghymru yr enw o fod yn israddol i gyrff cyfatebol yn Lloegr.

5.3 Prif bwyntiau'r cyflwyniad oedd:

- Edrychodd yr ymchwil ar berfformiad cymharol awdurdodau lleol Cymru a Lloegr gan fod yna gred gyffredinol fod perfformiad awdurdodau lleol yng Nghymru yn waeth na pherfformiad y cyrff cyfatebol yn Lloegr o safbwynt safon y gwasanaeth. Roedd data hanesyddol, datganiad gan yr Archwiliwr Dosbarth yn Nhachwedd 2001 a ddywedai fod Cymru yn dechrau gwella bellach a thystiolaeth anecdotaidd o gyfarfodydd yn Llundain a arweiniodd at ragdybiaeth fod y gwasanaeth yng Nghymru yn wael, i gyd yn amlygu'r haeriad hwn.
- Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil wedi'u seilio ar ddadansoddi 71 Dangosydd Perfformiad o eiddo'r Comisiwn Archwilio a oedd yn cwmpasu amrywiaeth eang o wasanaethau. Edrychwyd hefyd ar yr amser newid drosodd gydag is-set o 30 o ddangosyddion. Gwnaed yr ymchwil i gyd gydag awdurdodau unedol.
- Dengys y canlyniadau nad oes unrhyw wahaniaeth o bwys rhwng perfformiad awdurdodau lleol Cymru a Lloegr a bod y safonau gwasanaeth yng Nghymru yn gwella ar yr un cyflymdra ag yn Lloegr.
- I gloi, mae'r myth wedi'i chwalu.

5.4 Cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Ar ôl clywed y ffeithiau, roedd yr aelodau yn gofyn tybed beth oedd y cymhelliad wrth wraidd y wybodaeth anghywir. Awgrymasant ei bod wedi'i seilio ar anwybodaeth efallai yn hytrach na rhagfarn. Roeddent yn falch o weld bod llywodraeth leol yng Nghymru yn perfformio cystal ag awdurdodau yn Lloegr ac roeddent wedi'u calonogi bod y myth a fodolai cynt fod llywodraeth leol yng Nghymru yn israddol wedi'i chwalu. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd lle i fod yn hunanfodlon.
- Holodd yr aelodau a oedd yna gynlluniau i ddiweddaru'r canfyddiadau a hefyd pa un a gysylltwyd â'r Comisiwn Archwilio gyda chais am i'r ymchwil gael ei gyhoeddi.
- Gobeithiai'r aelodau y byddai'r iaith anffodus sy'n ymddangos yn aml yn adroddiadau'r Comisiwn Archwilio yn fwy cymedrol yn y dyfodol.

5.5 Mewn ymateb, dywedodd yr Athro Boyne ei fod wrthi'n diweddaru'r ymchwil ar y pryd a'i fod yn gwybod bod y comisiwn archwilio wedi gweld yr adroddiad ond ni allai ddychmygu y byddai'n fodlon ei gyhoeddi.

5.6 Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Boyne am ei gyflwyniad a gofynnodd iddo a wnâi ddychwelyd i'r Pwyllgor gydag adroddiad diweddaru y flwyddyn nesaf. Roedd yn barod i wneud hynny.

**Eitem 6: Effaith polisi Cyfle Cyfartal ar brynu ac adeiladu gan lywodraeth leol LGH-11-02 (p.3) Atodiadau 1, 2, 3, 4 a 5** *(ystyriwyd yr eitem hon ar ôl eitem 4)*

6.1 Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem hon gan ddweud bod y papur yn rhoi gwybodaeth am sut y mae polisi cyfle cyfartal yn effeithio ar waith prynu ac adeiladu llywodraeth leol o fewn y fframwaith cyfreithiol. Ychwanegodd fod y Safon Gydraddoldeb i Lywodraeth Leol yn gyfrwng ymarferol i helpu awdurdodau lleol i brif ffrydio a meincnodi'r ffordd y maent yn ymdrin â chydraddoldeb, a hynny o safbwynt cyflwyno gwasanaethau a chyflogaeth fel ei gilydd.

6.2 Cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- A ddylai fod yn orfodol i awdurdodau lleol fabwysiadu'r polisi hwn?
- Cafwyd dadl gyffelyb yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn gynharach heddiw ac awgrymwyd y gallai fod yn briodol i'r Pwyllgor hwn fwrw golwg dros y papur hwnnw (y Clerc i wneud y trefniadau angenrheidiol).
- Roedd yr aelodau yn unfrydol eu cefnogaeth i'r cysyniad o gyfle cyfartal ond codwyd amheuon ganddynt ynglŷn â rhoi gwahaniaethu positif penodol ar waith gan y gallai hynny achosi problemau. Er enghraifft, gallai gwahaniaethu positif effeithio'n fawr ar gwmni bach a holodd yr aelodau pa gymorth fyddai'n cael ei ddarparu.
- Teimlai'r aelodau fod yn rhaid i'r Cynulliad ddangos ymrwymiad llwyr a diwahân i gyfle cyfartal a gwireddu hynny ym mhob ffordd.

6.3 Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog fod hwn yn faes pwysig i fynd i'r afael ag ef a'i fod efallai yn gyfrwng i gynnal adolygiad yn yr hydref. Ychwanegodd y gallai fod o fudd i'r Aelodau ystyried y gwahanol elfennau sy'n bodoli gyda'i gilydd ac edrych ar effaith polisïau ar draws ei phortffolio cyfan o fewn strwythur y Pwyllgor. Awgrymodd y byddai’r PwylLgor o bosibl yn dymuno ystyried adolygu prif ffrydio cyfle cyfartal ym mhortffolio’r Pwyllgor.

**Eitem 7: Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol – Adolygiad Blynyddol LGH-11-02(p.4)**

7.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur hwn. O dan Adran 113(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, cytunwyd ar y Cynllun Partneriaeth i Lywodraeth Leol yng Ngorffennaf 2000. Dyma'r ail adroddiad ar weithrediad y Cynllun.

7.2 Tynnodd yr aelodau sylw at y parch cynyddol sydd i'w weld o'r naill ochr a'r llall i'r bartneriaeth ac roeddent yn gweld hynny fel cyfrwng holl-bwysig a fydd yn ei gwneud yn bosibl i'r Cynulliad ddatblygu ei berthynas gyda llywodraeth leol ymhellach.

7.3 Cytunai'r aelodau fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r gwaith a gyflawnwyd rhwng y Cynulliad a'r Cyngor Partneriaeth ond ychwanegasant fod partneriaid eraill, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, yr Awdurdodau Tân ac Awdurdodau'r Heddlu, hefyd yn cyfrannu at lwyddiant y bartneriaeth ac y dylid cydnabod eu cyfraniad hwythau hefyd.

7.4 Cytunai'r Gweinidog â'r sylw hwn a dywedodd y câi'r adroddiad ei newid i adlewyrchu hyn cyn iddo gael ei gyflwyno i gyfarfod llawn.

7.5 Canmolwyd awduron yr adolygiad am ei ysgrifennu mewn ffordd mor ddarllenadwy.

**Eitem 8: Adolygiad polisi o adfywio cymunedol – adroddiad terfynol LGH-11-02(p.5)**

8.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod y Pwyllgor wedi cytuno ar destun yr adroddiad yn ei gyfarfod diwethaf a bod cyfieithiad ohono wedi ei dderbyn erbyn hyn. Y cam nesaf yw anfon yr adroddiad at y cyhoeddwyr. Roedd yr aelodau'n fodlon â hyn.

8.2 Dywedodd y Cadeirydd fod yr Athro Dave Adamson wedi cwblhau ei waith ar yr adolygiad bellach. Ar ran y Pwyllgor, diolchodd iddo am ei gyfraniad sylweddol ac am y cyngor a gafwyd ganddo wrth lunio adolygiad manwl. Ategodd y Pwyllgor hyn.

8.3 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r adroddiad yn cael ei drafod mewn Cyfarfod Llawn ac y byddai'r Gweinidog yn ymateb i'r ddadl. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn tywys yr argymhellion yn eu blaen.

8.4 Cytunodd y Gweinidog i gyfeirio at y prinder gweithwyr cymunedol sydd wedi'u hyfforddi, a sut mae ymdrin â'r broblem, yn ei hymateb i Adolygiad Polisi y Pwyllgor.

**Eitem 9: Cofnodion cyfarfod 12 Mehefin LGH-10-02 (min)**

9.1 Cytunwyd ar y cofnodion.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Mehefin 2002**

**Crynodeb o'r pwyntiau gweithredu:**

1. Y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor am y datblygiadau mewn perthynas â'r Mesur Llywodraeth Leol drafft.

2. Y Gweinidog i gyflwyno cynigion ar symleiddio biliau’r dreth gyngor yn yr hydref.

3. Rhoi Cymunedau'n Gyntaf – y Gweinidog i ddarparu nodyn yn amlinellu sut mae partneriaethau yn gweithio ac i gynnwys esboniad o drefniadau’r Gronfa Ymddiriedolaeth.

4. Y Gweinidog i gyflwyno papur ar y polisi cyffuriau yn yr hydref.

5. Y Gweinidog i gyfeirio at y prinder gweithwyr cymunedol sydd wedi'u hyfforddi, a sut mae ymdrin â'r broblem, yn ei hymateb i Adolygiad Polisi y Pwyllgor.

6. Y Gweinidog i roi adroddiad i'r pwyllgor yn yr hydref ar hynt y Cynllun Prynu Cartref.

7. Efallai bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried adolygu prif ffrydio cyfle cyfartal ym mhortffolio’r Pwyllgor.

8. Cyfeiriad i'w gynnwys yn yr adolygiad blynyddol o Gynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol at y cyfraniad a wneir gan gyrff ar wahân i CLlLC a'r Cynulliad Cenedlaethol (e.e. yr Heddlu, yr Awdurdodau Tân, y Parciau Cenedlaethol ayb.).

9. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at Pauline Jarman am ddiffiniad ”yn agored i niwed” yng nghyd-destun y Ddeddf Llywodraeth Leol.